



**RHAGLEN HYFFORDDIANT GYMRU GYFAN
A REOLIR GAN RUBICON DANCE
Adroddiad Effaith
2025–2026**



“Mae WWTP yn fwy o deulu na ‘rhaglen’, sy’n darparu pwyntiau cyswllt hanfodol i’r rheini sy’n gweithio yn y sector i allu cyfarfod, dysgu, trafod, cael eu herio a datblygu. Mae’n arbennig o werthfawr i weithwyr llawrydd, sy’n gallu teimlo’n ynysig ac ar eu pennau eu hunain. Mae’n fforddiadwy ac o safon eithriadol bob amser. Mae rhywbeth i bawb, o raddedigion diweddar i weithwyr proffesiynol profiadol. Drwy WWTP, gallwch chi bob amser ddod o hyd i gefnogaeth, caredigrwydd, anogaeth a’r gred i barhau i weithio mewn amgylcheddau heriol drwy ddawns. Mae llawer wedi parhau i weithio yn y sector diolch i’r gefnogaeth gyson a gynigir drwy WWTP.” (Heidi Wilson, Uwch-ddarlithydd mewn Dawns, Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Cyflwyniad

Mae Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan (WWTP) yn cael ei rheoli gan Rubicon Dance ac ym mis Mawrth 2026 dathlodd 13 mlynedd o wasanaethu'r sector dawnys yng Nghymru. Yn bennaf yn rhaglen hyfforddi ar gyfer y rheini sy'n gweithio ym maes dawnys, nod WWTP yw ysbrydoli a chynnal dawnys gymunedol yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant sy'n ymateb i anghenion y sector. Cefnogwyd rhaglen 2025/2026 gan grant Creu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gyda chyllid cyfatebol gan Sefydliad Waterloo.

“Mae Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan (WWTP) yn galluogi'r rheini sy'n ymwneud â gweithio ym maes dawnys gymunedol ledled Cymru i ddod ynghyd i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal gyrfaedd, gan hefyd leihau ynysiad proffesiynol. Mae'r prosiect yn dod â sefydliadau ac unigolion o'r un anian ynghyd i rannu arferion, fel bod gan ymarferwyr yr offer sydd eu hangen arnynt i gyrraedd cymunedau amrywiol ac i fod mor gynhwysol â phosibl ym mhob agwedd o'u gwaith, gan greu cyfleoedd i bawb.” (Cais CCC)

Mae'r sector yn dameidiog ac yn fregus, a chafodd hyn ei gydnabod yn yr Adolygiad Dawnys a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O ganlyniad, cafodd y Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan bresennol ei diwygio drwy grant strategol a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Cyhoeddwyd yr Adolygiad Dawnys ym mis Rhagfyr 2024, a nododd:

“Ar un adeg roedd gan Gymru sector dawnys gymunedol a oedd yn uchel ei barch yn fyd-eang, ond mae tanfuddsoddi mewn seilwaith ac artistiaid wedi arwain at ddarnio Mae llawer o ymarferwyr yn cael eu dal mewn bodolaeth yn byw o'r llaw i'r genau, gan ganolbwyntio ar oroesi ar lefel feicro yn hytrach na chyfrannu at ddatblygiad y sector yn ehangach. Mae hyn yn lleihau statws proffesiynol ac yn gwaethgu heriau megis cyflogau isel ac amserlenni heriol. Cyfeiriwyd yn aml at ddiffyg y 'glud' sy'n dal y sector dawnys gymunedol at ei gilydd.”

Mae WWTP wedi ceisio darparu'r 'glud' hwn drwy gysylltu rhwydwaith o 29 partner, 226 o weithwyr llawrydd a 511 o bresenoldebau yn ystod 2025/26, a weithiodd gyda'i gilydd i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer y sector dawnys gymunedol ledled Cymru. Drwy ei gweithgareddau craidd, nod WWTP yw cyfrannu at ddatblygu'r gweithlu a gwella'r ddarpariaeth dawnys gymunedol drwy gyfleoedd perthnasol, rheolaidd ac amrywiol i ymarferwyr dawnys ar bob cam o'u taith yrfaol. Ei nod yw gwneud hyn drwy:

- Datblygu ac uwchsgilio'r gweithlu dawnys yng Nghymru er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn ansawdd a datblygu meysydd ymarfer newydd a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion blaenoriaethau strategol;
- Gwella cyfleoedd cyflogaeth a diwallu'r galw am ymarferwyr dawnys medrus i ddod â dawnys gymunedol i gynulleidfa ehangach;
- Meithrin a rhannu arfer artistig gorau ac annog arloesedd;
- Lleihau ynysiad proffesiynol;
- Cefnogi ymarfer arbenigol yn y meysydd hynny a nodwyd fel blaenoriaethau strategol gan y sector, megis Dawnys ac Iechyd;
- Cefnogi cynaliadwyedd y sector drwy sicrhau bod y gweithlu yn addas i'r diben, yn ogystal â derbyn cefnogaeth gymdeithasol, economaidd ac emosiynol.

Mae'r partneriaid yn cynnwys nid yn unig unigolion a sefydliadau dawnys gymunedol, ond hefyd lleoliadau, prifysgolion a chwmnïau cenedlaethol o bob rhan o Gymru, yn ymestyn o Bowys, Caerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Caernarfon, Sir Fynwy, Ceredigion, Caerdydd a Llanelli i Sir y Fflint.

Yn 2020 cyhoeddwyd adolygiad o waith WWTP hyd yna, ac ers hynny mae ymchwil, gwerthuso ac ymgynghori parhaus wedi parhau i ddarparu tystiolaeth o effaith ac wedi amlygu'r galw parhaus am raglen hyfforddi sy'n ymateb i anghenion strategol y sector. Mae'r astudiaeth effaith hon ar gyfer 2025/2026 yn parhau i gyflwyno a chrynhofio'r dysgu, gan adeiladu ar ystod eang o dystiolaeth, blogiau a chyhoeddiadau a oedd eisoes yn bodoli, gan gynnwys ffilm a blog a restrir ar ddiwedd yr adolygiad.

Y Rhaglen

Ers ei sefydlu yn 2013, mae'r rhaglen wedi ceisio cynnwys ystod eang o weithgareddau a dulliau hyfforddi er mwyn mynd i'r afael ag anghenion amrywiol a strategol sector sy'n wynebu newid parhaus. I ddechrau, cyflwynwyd y rhaglen yn bennaf drwy gyfres o ddiwrnodau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gynhaliwyd ledled Cymru ac a gafodd eu cynnal gan bartneriaid WWTP. Ond, wrth i'r pandemig daro ym mis Mawrth 2020, addaswyd y gwahanol ffrydiau gwaith. Tyfodd y rhaglen yn sylweddol, efallai oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n cael eu darparu ar-lein, gan ei gwneud yn fwy hygyrch gan nad oedd teithio a llety bellach yn rhwystrau. O ganlyniad, mae llawer o'r dulliau a fabwysiadwyd wedi'u cynnal, gyda chydbwysedd rhwng gweithgareddau a digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Yn eironig, gallai hyn leihau effaith rhwydweithio wyneb yn wyneb, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn yr adolygiad.

Yn ystod 2025/26 roedd 88 o ddigwyddiadau gwahanol, gan gynnwys y 13 ffrwd ddilynol o weithgaredd:

- Rhaglenni hyfforddi DPP – wyneb yn wyneb mewn tair ardal ddaearyddol yng Nghymru, gyda sesiynau dilynol ar-lein i rannu dysgu x 6
- Fforymau Rhannu Ymarfer a arweiniwyd gan bartneriaid WWTP x 2
- Sesiynau gwybodaeth i raddedigion x 2
- Cyfarfodydd Rhwydwaith x 9
- Cyfarfodydd Partneriaid x 9
- Cyfres Sgyrsiau Gwadd x 6
- Sesiynau Cymorth Un-i-Un ar Ymarfer Creadigol a Lles x 9
- Sesiynau Cymorth Iaith Gymraeg Un-i-Un ar gyfer dechreuwyr a'r rheini sy'n gwella eu sgiliau x 15
- Sesiynau Rhannu Ymarfer x 21 ¹
- Sesiynau Cymorth Un-i-Un ar Werthuso x 6
- Adroddiad effaith (blynyddol) x 1
- Astudiaeth achos ar elfen o WWTP (blynyddol) x 1
- Ffilm i amlygu llwyddiant elfen o WWTP (blynyddol) x 1

Felly, mae gwaith WWTP yr un mor berthnasol i ymarferwyr unigol ag ydyw i sefydliadau dawns, sefydliadau celfyddydol eraill, lleoliadau a chyflogwyr traws-sector sy'n eu cyflogi i gefnogi eu rhaglenni.

¹ Roedd y rhain yn cynnwys Cwricwlwm i Gymru Ysgolion, pobl ifanc yn dawnsio, pwysigrwydd symud i'r blynyddoedd cynnar mewn amrywiaeth o leoliadau, amrywiaeth mewn dawns, ymarfer cynhwysol, cadw'n gyfredol â datblygiadau yn y sector ac ymarfer, rolau asiantau dros newid yng Nghymru, Dawns i Bobl sy'n byw gyda Parkinson's gan gynnwys diagnosis cynnar, y celfyddydau ac iechyd meddwl, gofalu am iechyd meddwl ymarferwyr dawns eu hunain, fforymau iaith Gymraeg megis "Sut brofiad yw bod yn ymarferydd dawns siaradwr Cymraeg iaith gyntaf yn gweithio yng Nghymru?"

Yn ystod 2025/26 parhaodd WWTP i gynyddu nifer yr ymarferwyr anabl (8) a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen, fel arweinwyr digwyddiadau ac fel cyfranogwyr, ynghyd â nifer y siaradwyr Cymraeg (13) a'r rhai a oedd yn uniaethu fel mwyafrif byd-eang (12). Cafwyd 49 o gyfranogwyr newydd yn manteisio ar WWTP am y tro cyntaf. Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dangos ehangiad pellach y rhaglen, yn artistig ac o ran ei chyrrhaeddiad.

Roedd siaradwyr ac arweinwyr sesiynau eraill ar draws y rhaglen amrywiol yn cynnwys:

Dr Kate Lawrence, Coreograffydd, a Karina Jones, Perfformiwr ac Ymgynghorydd Mynediad - *"Nam ar y Golwg a Chreadigrwyd"*

- Jane McLean a Ruth Spencer, Artistiaid Dawns – *"Ffocws ar ddulliau dawns a symud ar gyfer oedolion ag Anableddau Dwys, Deallusol a Lluosog"*
- Sara Sitari – Cyfarwyddwr/Sylfaenydd, Ardour Academy - Cynhwysiant
- Despina Lloyd-Goula a Kseniia Fedorovykh – Cyd-gyfarwyddwyr, Cwmni Dawns Hedydd (cwmni newydd wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru)
- Joe Powell-Main - Cynhwysiant
- Richard Chappell – Ymarferion Coreograffig Annibynnol a Hunan-gynhyrchu
- Dr Bethan Ryland – *Moving Together: The Power of Dance in Care and Community*
- Kayla Dougan Bowtell – Aesop – Atal Cwmpïadau
- Lisa Davies a Tom Stupple – Iechyd meddwl artistiaid ac ymarferwyr/ffiniau wrth weithio mewn cyd-destunau heriol neu anodd
- Sally Varrall, Heidi Wilson, Esther KilBride – dulliau o hwyluso sesiynau symud yn Hosbis Plant Tŷ Hafan
- Gina Roberts – Ffocws ar Ddatblygiad Athrawon/Addysg (ysgolion cynradd)
- Jên Angharad, Prif Weithredwr YMa – Iaith Gymraeg
- Dr Susanne Burns – Sesiynau gwerthuso
- Marla King – Sesiynau Ysgrifennu Myfyriol a Newid Hinsawdd yn y Celfyddydau
- Ballet Cymru, Louise Lloyd a Billy Brooke, Dulliau cynhwysol drwy Ballet
- Uma O'Neill, Lle Mae Cynhwysiant yn Annog Posibilrwydd (WISP), gogledd Cymru
- Jemma Thomas – Ffocws ar y Blynnyddoedd Cynnar/gweithio mewn meithrinfeydd/ysgolion/datblygiad plant
- Jessie Brett, Humans Move – Cynhwysiant gyda phobl ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol
- Dorka Zatonyi, Ffocws ar gysylltiadau rhyngwladol
- Heidi Wilson – *"A Time to Pause"* a Dawns ar gyfer Parkinson's
- Paul Bayes Kitcher, Fallen Angels Dance Theatre – dawns, iechyd meddwl ac adfer o ddibyniaeth
- Jo Taylor, No Fit State – ymgysylltu cymunedol
- Gary Clarke, Gary Clarke Dance Company – ymgysylltu cymunedol
- Lily Norton, Stopgap Dance Company – Gwneud Dawns yn Hygyrch
- Ffion Campbell-Davies, Dawsïwr/Coreograffydd – gwaith celfyddydol amlddisgyblaethol

Mae ffocws cryf ar ddarpariaeth Gymraeg wedi nodweddu rhaglen 2025/26:

- Mae Dwynwen Lloyd Llywelyn, Theatr Felinfach, Ceredigion, sy'n bartner sefydledig yn WWTP, wedi ysgrifennu astudiaeth achos ar Gymorth Iaith Gymraeg i ymarferwyr drwy WWTP;
- Mae sesiynau *Sensing Welsh*, dan arweiniad Jên Angharad, wedi bod yn nodwedd o'r rhaglen ers 2021 - wedi'u hanelu at Ddechreuwyd a Dysgwyr Uwch (grwpiau ac unigolion). Cynhaliwyd sesiwn wyneb yn wyneb ar gyfer dysgwyr Cymraeg o lefelau cymysg yn YMa ym Mhontypridd ym mis Chwefror 2026. Mae sesiynau un-i-un ar-lein hefyd wedi'u cynnig fel bod pobl yn gallu gweithio ar eu cyflymder eu hunain, beth bynnag fo'u lefel o ran dysgu Cymraeg o fewn eu sesiynau/perfformiadau/ymarfer dawnys ayb;
- Cynhaliwyd ail Fforwm Iaith Gymraeg dan arweiniad Jên Angharad ym mis Medi 2025: *"Sut brofiad yw bod yn ymarferydd dawnys Cymraeg ei iaith sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru?"* Cynhaliwyd Fforwm mwy diweddar ym mis Mai 2026, a agorwyd i'r rhai sy'n gweithio ar draws y celfyddydau ac nid yn unig ym maes dawnys.
- Mae grŵp WhatsApp ar gyfer y rhai sy'n fwy hyderus yn y Gymraeg, gyda chefnogaeth Jên Angharad, wedi'i sefydlu fel adnodd cyflym ar gyfer cyfieithu ac ynganu;
- Mae Cai Tomos wedi parhau i gynnig sesiynau un-i-un Cymorth Lles ac Ymarfer Creadigol. Cynigir y rhain drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae'r datblygiadau uchod yn y rhaglen, y partneriaethau cynyddol a'r aelodau newydd i gyd wedi cyfoethogi ac amrywio'r rhaglen gyffredinol. Ond, mae'n werth nodi ei bod yn ymddangos bod y cydbwysedd wedi symud yn sylweddol tuag at fwy o ddarpariaeth ar-lein.

Y Partneriaid

Ym mis Mawrth 2013, pan ddechreuodd WWTP, roedd ganddi saith partner a chronfa ddata o tua 60 o unigolion a sefydliadau a oedd yn gweithio ym maes dawnys yng Nghymru. Ers hynny mae hyn wedi tyfu'n sylweddol, ac mae WWTP bellach yn gweithio gyda 29 o sefydliadau partner (gan gynnwys Rubicon), yn ogystal â llawer o unigolion ac ymarferwyr dawnys gymunedol llawrydd ledled Cymru sy'n rhan o gronfa ddata WWTP.

Mae tri phartner newydd wedi ymuno â'r rhaglen, gan gynyddu'r nifer o 28 i 29 (gan gynnwys Rubicon) o bob rhan o Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys Common Wealth Theatre, Ardour Academy a Chwmni Dawnys Hedydd.²

- Cyngor Datblygu Celfyddydau Caerffili, De Cymru – Dave Chamberlain, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau
- Arts Care Gofal Celf, Gorllewin Cymru - Chris Ryan, Cyfarwyddwr
- Afon Dance, De Cymru - Louise Prosser, Cyfarwyddwr Artistig
- Cwmni Dawnys Cenedlaethol Cymru, De Cymru, Karen Thomas, Rheolwr y Cwmni Artistig
- Canolfan Mileniwm Cymru, De Cymru, Naomi McKenna-Lawson, Cynhyrchydd Dysgu Creadigol
- Hedyn (dan arweiniad gweithwyr llawrydd), Gogledd Cymru Sarah Mumford ac Alys Huws, Ymarferwyr Dawnys Llawrydd
- Theatr Clwyd, Gogledd Cymru, Angharad Jones, Swyddog Ymgysylltu
- DanceRama, Gorllewin Cymru, Rebecca Mullan, Cyfarwyddwr
- Artis Community Cymuned, De Cymru, Jên Angharad, Prif Weithredwr, YMa

² Mae hyn yn adeiladu ar y tri phartner newydd a ymunodd â WWTP yn ystod 2024–2025, sef Paallam Arts, Jones the Dance a Hijinx.

- Ballet Cymru, Amy Doughty, De Cymru, Cyfarwyddwr Artistig, Ymgysylltu a Hyfforddiant
- Theatr a Chanolfan Gelfyddydol Glan yr Afon, De Cymru, Sharon Casey, Pennaeth Theatr, Celfyddydau a Diwylliant
- Dance Blast, De Cymru, Kathy Young, Rheolwr y Cwmni
- Coleg Sir Gâr, Gorllewin Cymru, Claire Mackerras, Cyfarwyddwr y Cwricwlwm
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd, De Cymru, Heidi Wilson, Uwch-ddarlithydd mewn Dawns ac Ymarferydd Dawns Llawrydd, Powys
- Tanio, De Cymru, Lisa Davies, Prif Weithredwr
- Dawns i Bawb, Gogledd Cymru, Catherine Young, Cyfarwyddwr Artistig
- Impelo, Bethan Cooper, Canolbarth Cymru, Cynullydd/Artist Dawns
- Eleni Cymru, Gwenno Jones, Gogledd Cymru, Rheolwr Prosiect
- Theatr Felinfach, Canolbarth Cymru, Sioned Haf Thomas, Cynhyrchydd Theatr a Drama
- Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, De Cymru, Jamie Jenkins, Cynhyrchydd Dawns
- Motion Control Dance, De Cymru, Emma Mallam, Cyfarwyddwr
- Groundwork Collective (dan arweiniad gweithwyr llawrydd) De Cymru, Sophie Lorimer a Lara Ward, Artistiaid Dawns Llawrydd
- No Fit State Circus, De Cymru, Jo Taylor, Rheolwr Rhaglen Gymunedol
- Paallam Arts, Krishnapriya Ramamoorthy, Cyfarwyddwr/Cynhyrchydd
- Jones the Dance, Gwyn Emberton, Cyfarwyddwr Artistig a Kate Perridge, Cynhyrchydd Gweithredol
- Hijinx, Susan Kingman, Rheolwr Hyfforddi
- Commonwealth Theatre, Chantal Williams, Cynhyrchydd Gymunedol
- Ardour Academy, Sara Sitari, Cyfarwyddwr/Sylfaenydd
- Cwmni Dawns Hedydd, Despina Goula a Kseniia Fedorovykh, Cyd-gyfarwyddwyr

Yr Effaith

Mewn adolygiadau blaenorol rydym wedi nodi bod effaith WWTP yn sylweddol ac yn cynyddu dros amser. Yn ystod 2024/25 gwelwyd ystod ehangach a mwy amrywiol o ymarferwyr ac ymarferion, ynghyd â dull mwy allanol ei ffocws tuag at y sector dawns. Ymddengys fod hyn wedi parhau drwy gydol 2025/26, gyda phwyslais ar ddarpariaeth Gymraeg, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhagorwyd ar y targedau meintiol a osodwyd fel amod cyllido, gyda ffocws ar sicrhau tri phartner newydd i'r rhaglen, pobl newydd yn mynychu digwyddiadau nad oeddent wedi mynychu o'r blaen (49) – ac roedd 23 ohonynt yn anabl, yn siarad Cymraeg neu'n perthyn i'r mwyafrif byd-eang a phobl newydd yn arwain digwyddiadau sy'n anabl, yn siarad Cymraeg neu'n perthyn i'r mwyafrif byd-eang (10).

Mae'r data ansoddol a gasglwyd yn darparu tystiolaeth o effaith ar ymarferwyr, partneriaid, arweinwyr sesiynau ac arferion dawns.

Ar Ymarferwyr

"Mae WWTP yn ysbrydoledig, ac rydym ni'n falch o fod yn rhan ohoni".

"Mae WWTP yn rhaglen mor feithringar sy'n canolbwyntio ar bobl, ac mae wedi rhoi ystod eang iawn o gyfleoedd hyfforddi a dysgu i mi drwy ddarpariaeth gyfunol ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r defnydd o hwyluswyr ac arweinwyr gweithdai sy'n dychwelyd yn gryfder y rhaglen, gan eu

bod yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o waith unigolion, ac i'r gwrthwyneb, ac felly maen nhw'n hyrwyddo WWTP i eraill!"

"Casgliad gwych o artistiaid dawns creadigol cefnogol o bob rhan o Gymru, a chyflwyniad ysbrydoledig. Y symrlwydd ac, ar yr un pryd, y cyfoeth mewn sgysiau symudiad un-i-un; y maeth o gael eich gweld a gweld; gwneud amser ar gyfer hynny. Roedd ymarfer y dulliau'n ymarferol gyda phartneriaid yn gwneud y cyfan yn llawer mwy byw; y profiad o gael eich gwahodd i ddawnsio yn ogystal â gwahodd eraill. Mae'r rhain yn arferion y gellir eu trosglwyddo i sawl cyd-destun."

Mae WWTP yn darparu cefnogaeth hanfodol i ymarferwyr mewn sawl ffordd, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion artistiaid dawns llawrydd ar draws sbectwm eu gyrfaedd, gan gynnwys camau gyrfa cynnar, canol a sefydledig unigolion. Mae hwn yn gryfder mawr i WWTP gan ei fod yn dod â phobl ynghyd i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd, gyda phrofiad yn amrywio o ymarferwyr sydd newydd ddechrau yn y sector i'r rhai sydd â degawdau o brofiad. Drwy gysylltiad â chefnogaeth gan eraill ac i eraill mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol ond mae hefyd yn cefnogi ymarferwyr gyda syniadau a setiau sgiliau newydd.

Mae adborth a gwerthuso helaeth gan ymarferwyr yn amlygu'r effeithiau allweddol canlynol arnynt a'u hymarfer.

Cysylltiad a Rhwydweithio:

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cysylltedd a rhwydweithio mewn gwlad sy'n amrywiol ac yn anodd ei chyrraedd yn ddaearyddol. Mae'r ynysiad a bodoli o'r llaw i'r genau y mae llawer o artistiaid yn ei phrofi yn golygu bod angen rhwydweithiau sy'n dod ag ymarferwyr ynghyd fel eu bod yn teimlo'n llai unig. Mae'r sector hefyd wedi cael ei effeithio'n fawr gan newidiadau diweddar mewn polisi a chyllido sydd wedi bygwth seilwaith a oedd eisoes yn fregus ac ansicr.

Felly, mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod ynghyd i rannu dysgu a phrofiadau ac i gydweithio er budd y sector cyfan ac ymddengys fod hyn yn fuddiol i arweinwyr yn ogystal â chyfranogwyr y sesiynau.

"Fel casgliad, mae gan sefydliadau dawns a gweithwyr llawrydd fforwm i drafod anghenion hyfforddi, rhannu syniadau ac, yn bwysicaf oll, cydweithio i sicrhau bod y sector dawns gymunedol yn parhau i greu rhwydwaith dawns gymunedol gweithredol ac uchelgeisiol ledled Cymru."

"Mae'r diwrnodau DPP hyn yn fy ngalluogi i gael cymaint o fewnwelediad ar gyfer fy ymarfer personol fy hun ac i greu cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn fy ardal."

"Yn gyntaf oll, diolch i chi a Rubicon am greu'r manau gwych hyn i ddysgu, cyfarfod ac ymgysylltu ag ymarferion dawns mor wahanol ac amrywiol. Mae'n amhrisiadwy cael y posibilrwydd o ddod i sesiynau a gwrando ar ymarferwyr eraill a dysgu ganddyn nhw, pob un ohonyn nhw yn cynnig eu safbwyntiau a'u dulliau eu hunain o wneud, creu a rhannu ennill bywoliaeth yn yr amseroedd hynod heriol rydym ni'n byw ynddyn nhw ar hyn o bryd. Rydw i wir wedi fy nghyffwrdd gan haelioni'r siaradwyr wrth rannu mewnwelediad ac wrth fod yn fodlon siarad ymhellach ar ôl y sesiynau."

"Mae hi bob amser mor wych cael cipolwg ar waith ymarferydd arall."

Hygyrchedd:

Mae argaeledd lleoedd am ddim ac wedi'u cynorthwyo yn hanfodol i gyfranogiad.

“Heb gefnogaeth lle am ddim (wedi'i ariannu) i weithiwr llawrydd, ni fyddwn i wedi gallu mynychu'r diwrnod DPP gyda Jones the Dance a Deaf Men Dancing. Mae'n golygu llawer gallu mynychu a derbyn hyfforddiant heb i ansefydlogrwydd ariannol fy atal i rhag cael mynediad at wybodaeth neu allu bod yn yr un ystafell ag eraill. Diolch am greu'r cyfleoedd hyn i ddawnsio a chyfarfod â'n gilydd. Rydw i bob amser yn gadael yn teimlo llawn cymhelliant ac wedi fy ysbrydoli.”

“Roeddwn i'n falch iawn o gael cynnig Lle Llawrydd am ddim. Mae hi bob amser yn anodd ystyried mynychu cyrsiau oherwydd gall cost fod yn rhwystr yn aml. Roedd y cynnig o le am ddim yn golygu fy mod i'n gallu ymuno heb unrhyw bryder ariannol.”

“Fel ymarferydd llawrydd mae'n beth prin i mi; 1. gallu cymryd amser i ffwrdd i fynychu diwrnodau hyfforddi a 2. gallu eu fforddio nhw. Mae cael cynnig lle am ddim yn beth prin iawn ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gan ei fod wedi fy ngalluogi i gael cymaint o fewnwelediad ar gyfer fy ymarfer personol fy hun ac i wneud cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn fy ardal.”

Lles:

Mae cyfranogwyr yn cyfeirio at yr effaith ar les unigol, ac ymddengys fod y sesiynau wyneb yn wyneb yn ogystal â'r sesiynau un-i-un yn cyfrannu at yr effaith hon.

“Roedd hi'n wych cael diwrnod yn canolbwyntio ar les ymarferwyr. Yn aml rydw i'n cael fy hun mor brysur, nid yn unig yn hwyluso ond hefyd yn teithio ac yn ceisio bod yn bopeth i bawb, fel bod rhoi caniatâd i mi fy hun i eistedd gyda mi fy hun a myfyrio yn gallu cael ei anghofio. Roeddwn i'n teimlo bod cyflymder tawel y diwrnod yn berffaith i mi, ac roedd cael gwneud hynny ar ddiwrnod godidog yn y Gerddi Botaneg yn llawenydd pur.”

“Diolch am gyfarfod heddiw gyda Sara ac mae'n ddrwg gen i fy mod wedi mynd ychydig yn emosiynol ar y diwedd. Rydym ni i gyd yn gweithio'n ddiflino i gefnogi ein gilydd a'n cymunedau drwy ein gwaith. Mae'n gyfnod anodd. Rwy'n gwerthfawrogi bod yn rhan o'r grŵp hwn o bobl a fydd yn parhau i frwydro dros yr hyn sy'n iawn ac i wneud popeth o fewn ein gallu dros fydd gwell.”

I rai ymatebwyr, y dull un-i-un oedd fwyaf effeithiol tra bod eraill yn gwerthfawrogi'r profiad grŵp oherwydd y cysylltiad.

“Sesiwn Gymraeg un-i-un anhygoel arall drwy WWTP. Dyma'r ffordd orau i mi ddysgu un-i-un, gydag eglurhad a chysylltu dysgu iaith â symudiad.”

Datblygu Ymarfer a Sgiliau:

Roedd yr ystod o weithgareddau a gynigiwyd drwy gydol y flwyddyn yr un mor gyfoethog ac amrywiol â mewn blynyddoedd blaenorol, ac roedd yn ceisio datblygu sgiliau mewn llawer o feysydd gwahanol. Mae'r rhai a fynychodd yn unfrydol yn rhoi adborth cadarnhaol am y sgiliau y maent wedi'u datblygu a sut y byddant yn eu rhoi ar waith.

“Nawr mae gen i ddealltwriaeth llawer cliriach o sut gall dulliau ansoddol gryfhau gwerthuso gwaith dawns ac iechyd, ond rhannodd yr hwylusydd offer ymarferol rydw i'n gallu eu defnyddio ar unwaith, gan gynnwys wrth baratoi ar gyfer cyfarfod gyda chyllidwr yfory. Doeddwn i erioed wedi ystyried cynllunio ‘beth’ rydw i eisiau ei werthuso cyn i brosiect ddechrau, ac mae hyn yn teimlo fel newid mawr yn y ffordd byddaf i'n mynd ati i werthuso yn y dyfodol.”

“Rydw i wedi cymryd llawer o syniadau a gwybodaeth ymarferol a defnyddiol iawn o'r gweithdy WWTP hwn, ac rydw i wedi rhoi rhai ohonyn nhw ar waith yn barod. Diolch o galon i bawb am rannu eich profiadau cyfoethog mor hael. Roeddech chi'n creu amgylchedd cynnes, croesawgar a chefnogol i ddysgu ac archwilio. Rydw i'n teimlo fy mod i'n fwy gwybodus ac yn llawer mwy hyderus i ddiwallu anghenion penodol dawnsywyr B/byddar a thrwm eu clyw. Diwrnod hapus, heriol a llawn hwyl!”

“Mae mynychu diwrnod DPP Nam ar y Golwg a Gwaith Creadigol wedi gwneud i fy sesiynau fy hun deimlo'n wahanol heddiw.”

“Mae'r sgiliau ychwanegol ges i o'r gweithdy wedi fy helpu i fod yn llawer cliriach wrth ddisgrifio gweithgareddau i gyfranogwyr y dosbarth. Roeddwn i'n gallu rhoi hynny ar waith yn fy nosbarth y bore yma.”

Roedd rhai ymarferwyr yn dysgu sgiliau newydd tra bod eraill yn cael cyfle i adfywio.

“Gan fy mod yn byw ac yn dawnsio yng Ngogledd Cymru, roeddwn i'n cydnabod pa mor bwysig yw gallu hyfforddi a mwynhau dawns drwy gyfrwng y Gymraeg ac wrth fynychu'r sesiwn "cyflwyno dosbarth drwy gyfrwng y Gymraeg", ces i syniadau am sut i wneud hynny.”

“Dysgais i sgiliau newydd ynglŷn â BSL a SSE. Rwy'n ddawnsiwr Bharata Natyam, ac mae'r cysylltiadau rydw i'n gallu eu gwneud rhwng y rhain ac ystumiau llaw yn fy nawns yn rhywbeth hoffwn i ei archwilio.”

“Pan wnaethon ni gau ein llygaid a bod un dawnsiwr yn arwain y llall wrth symud drwy'r gofod, cafodd hyd yn oed cerdded drwy'r gofod wedi fy arwain gyda'r fraich effaith fawr ar fy ngallu i gadw cydbwysedd yn dda. Doeddwn i ddim wedi ystyried hynny o'r blaen, felly byddaf i'n cymryd y dysgu hwnnw ac yn chwilio am ffyrdd o'i ddefnyddio yn fy sesiynau.”

Ac mewn rhai achosion, cafodd yr hyfforddiant ei rannu ymhellach o fewn sefydliadau, gan wneud y mwyaf o'i effaith:

“Mae'r hyfforddiant gyda Dr Kate Lawrence a Karina Jones wedi ein galluogi ni i weithio gydag artistiaid a fynychodd y gweithdy i integreiddio disgrifiad sain mewn ffordd hwyliog a chwareus i'n sioe blant Sblash sydd wedi teithio i wyliau dros yr haf. Roedden ni wrth ein bodd bod yr hyfforddiant wedi ein galluogi ni i wneud hyn.”

Mae'r cyfle i rannu ymarfer rhywun arall hefyd yn cael ei nodi yn aml fel braint ac fel cyfle i fyfyrwyr ar ein hymarfer ein hun.

Datblygiad Gyrfa:

Fel y nodwyd uchod, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yng ngweithgaredd WWTP ar wahanol gamau yn eu gyrfaedd, ac mae'r rhaglen yn ymateb yn fedrus i'r ystod eang hon o anghenion. Drwy gymorth gofalus, mae'n darparu cyfleoedd i ymuno â'r maes neu ddychwelyd iddo, yn ogystal â datblygu gyrfaedd artistiaid mwy sefydledig.

“Roeddwn i jyst eisiau dweud diolch enfawr am y diwrnod DPP ac am ba mor llyfn oedd popeth. Roedd hi’n hyfryd cyfarfod a symud gyda phawb, ac roeddwn i’n teimlo’n gyfforddus iawn a fy mod i’n cael fy arwain drwy’r holl dasgau roedden ni’n eu harchwilio. Roedd y ffilm yn helpu i roi persbectif gweledol ar y gwahanol sgoriau roedden ni’n chwarae gyda nhw, ac roedd hi’n wych gweld sut mae’r gwaith yn dod yn fyw. Mae wedi gwneud i mi werthfawrogi ansawdd gwaith un-i-un a pha mor drawsnewidiol yw e. Rydw i’n edrych ymlaen at roi’r pethau hyn ar waith yn fy ymarfer yn y dyfodol. Fel graddedig diweddar, rydw i’n newydd i WWTP, ond rydw i’n gobeithio cymryd rhan mewn mwy o gyfleoedd gyda WWTP a chysylltu eto!”

“Rydw i’n raddedig diweddar mewn dawns o NSCD ac wedi symud yn ôl i ogledd Cymru yn ddiweddar. Rydw i’n cydnabod bod dawns yn gallu cael ei gweld weithiau fel ffurf gelf elitaidd sy’n cael ei deall gan rai pobl yn unig. Rydw i’n credu ei bod yn hanfodol bod dawns yn cael ei thrawsnewid yn ffurf gelf y gall pawb ei gwerthfawrogi a’i mwynhau. Roeddwn i’n gweld y sesiynau hyfforddi DPP fel ffordd o ddeall yn well sut i annog y cynhwysiant hwnnw, ac rydw i wedi gadael wedi fy ysbrydoli’n arw i ddod â mwy o gynhwysiant i fy mhrofiadau dawns yn y dyfodol. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn hyfforddi ar nam ar y golwg, roeddwn i’n teimlo fy mod wedi cael fy nghyflwyno i bersbectif hollol newydd ar ddawns, ac roeddwn wedi rhyfeddu at y cyfoeth y gallai disgrifiad sain ei ychwanegu at fy ngwaith.”

“Fel dawnsiwr sydd yn ymhellach ymlaen yn ei gyrfa, roedd yn fy atgoffa i wrth i’r oes newid bod yn rhaid i ni addasu, bod yn greadigol yn y ffordd rydym ni’n cynnal ein gyrfaedd, a pharhau i bwyso am yr hyn rydyn ni’n credu ynddo, yn enwedig ym maes dawns. Roedd yn ysbrydoledig ac wedi gwneud i mi fyfyrio ar fy ngweledigaeth a fy lle ym myd dawns yng Nghymru (yn enwedig Gogledd Cymru!) a thu hwnt.”

“Cyflwyniad hyderus a llawn gwybodaeth a oedd yn mapio datblygiad parhaus D fel artist dawns sy’n datblygu mewn ffordd ddefnyddiol. I mi, tynnodd sylw at yr heriau sylweddol y mae graddedigion diweddar yn eu hwynebu wrth geisio creu gwaith perfformio, a’r diffyg cyfleoedd i lwyfannu gwaith newydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Roedd yn ddiddorol clywed gan artistiaid eraill sy’n datblygu am y gefnogaeth sydd ei hangen i gynnal ffitrwydd corfforol (ac artistig) drwy fynediad fforddiadwy at dechneg a choreograffi, a’r atebion posibl roedden nhw’n eu hystyried. Fel bob amser, mae’n werthfawr cadw mewn cysylltiad â’r hyn sy’n digwydd ar draws y sector dawns yng Nghymru (a thu hwnt).”

Mae’r sesiynau gwybodaeth ar gyfer graddedigion dawns yn amhrisiadwy i’r dawnsywyr hynny sy’n dychwelyd i Gymru, gan eu cysylltu ag eraill sy’n gweithio yn y sector dawns gymunedol.

Gofal a Chymorth:

Mae pob ymatebydd yn canmol y gofal a’r gefnogaeth a ddarperir gan WWTP. Mae ymatebwyr yn cyfeirio at greu ‘mannau diogel’, ansawdd y siaradwyr, yr hwyluswyr ac arweinwyr y sesiynau, yn ogystal ag arweinyddiaeth y rhaglen. Ymddengys hefyd fod dod ag ymarferwyr ynghyd ar yr adeg hollbwysig hon yn natblygiad dawns yng Nghymru wedi bod yn angenrheidiol, wrth gefnogi unigolion ar yr un pryd â meithrin gobaith ar y cyd ac, o bosibl, ysgogi gweithredu. Mae sesiynau Cymorth Lles ac Ymarfer Creadigol Cai Tomos yn parhau i gael eu gwerthfawrogi’n fawr gan y rhai sy’n manteisio arnynt.

“Roedd yn gefnogol iawn a byddwn i’n elwa o fwy o sesiynau. Ar hyn o bryd, mae sesiynau un-i-un yn gweithio orau i mi, ond gallai sesiynau grŵp weithio’n dda i eraill. Ces gyfle i deimlo’r ymatebion corfforol i emosïynau a oedd yn codi wrth i ni drafod fy mhrofiadau yn ystod y cyfnod tawel ar ôl prosiect. Creodd le i mi heb wybod yn union ble oeddwn i na beth oeddwn i’n ei

deimlo. Mae hynny wedi fy helpu i fod yn fwy presennol ac i gydnabod bod lle ac amser i beth bynnag sy'n digwydd, ac mae hynny ynddo'i hun yn rhyddhad, hyd yn oed os nad yw'n rhywbeth pendant eto."

"Diolch am sesiwn ddiddorol. Roedd hi'n hyfryd gallu siarad yn agored am sefyllfa bresennol y sector dawns yng Nghymru a'n gobeithion ar gyfer y dyfodol."

"Roedd hi'n galonogol clywed bod y pethau anodd rydw i'n eu profi fel artist llawrydd yn rhai "normal" ac yn brofiadau sy'n cael eu rhannu gan eraill. Roedd yn ddefnyddiol gallu teimlo fy emosiynau ynglŷn â phethau heb orfod cael fy arwain tuag at gynllun gweithredu. Ond roedd cael fy ngadael gyda'r teimladau hynny, ar ôl iddyn nhw gael eu dwyn i'r wyneb, ynddo'i hun yn rhoi rhyw fath o eglurder ynghylch ble rydw i."

Hyder a Dilysu:

Yn gysylltiedig â'r uchod, mae'n ymddangos bod datblygu sgiliau a'r amgylcheddau gofalgwr lle caiff y cyfleoedd hyn eu creu yn cyfrannu at feithrin hyder a dilysu ymarfer ymarferwyr, y mae eu gwaith yn aml yn gallu bod yn ynysig.

"Roedd Cai Tomos wir yn gwrando arna i – yn gofyn cwestiynau yn ôl a oedd yn gwneud i mi feddwl yn iawn ac egluro. Sesiwn ardderchog!"

"Mae'n wir dweud, i raddau helaeth mai diolch i WWTP rydw i wedi dod o hyd i'r stamina a'r llinynnau i mi ddechrau tyfu fy ymarfer unwaith eto. Diolch"

"Casgliad gwych o artistiaid dawns creadigol cefnogol o bob rhan o Gymru a chyflwyniad ysbrydoledig."

"Y symrlwydd ac, ar yr un pryd, y cyfoeth mewn sgysiau symudiad un-i-un; y maeth o gael eich gweld a gweld; gwneud amser ar gyfer hynny. Roedd ymarfer y dulliau'n ymarferol gyda phartneriaid yn gwneud y cyfan yn llawer mwy byw; y profiad o gael eich gwahodd i ddawnsio yn ogystal â gwahodd eraill. Mae'r rhain yn arferion y gellir eu trosglwyddo i sawl cyd-destun."

Ar Arferion Dawns a'r Sector

Ymddengys hefyd fod y rhaglen wedi cael effaith ar arferion dawns yn ystod y flwyddyn hon drwy uwchsgilio ymarferwyr mewn meysydd penodol o angen, gan ddatblygu sgiliau'r gweithlu ar yr un pryd fel y gellir datblygu meysydd ymarfer newydd sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd drwy greu ffrydiau incwm newydd. Mae hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd i gymunedau yng Nghymru gael mynediad at sesiynau wrth i'r gweithlu ddatblygu i ddiwallu anghenion cyfredol.

“Ochr yn ochr â'n cydweithwyr yng Nghymru, mae wedi bod mor werthfawr cael myfyrio ar ddulliau ac effaith rhaglen Live Well & Dance with Parkinson's a rhannu rhywfaint o'n dysgu ar draws y cyd-destun cenedlaethol hwn o ymarfer. Mae People Dancing wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r 'Blueprints', sef gofod lle bydd adnoddau, ffilmiau, delweddau a dysgu ar gyfer y rhaglen Live Well ar gael. Drwy rannu a dysgu drwy gyfnewid ymarferol a deialogaidd sy'n cael ei hwyluso gan fenter WWTP a sefydliadau fel People Dancing, rydym yn sicrhau bod yr arfer o ddawnsio gyda Parkinson's yn parhau i dyfu, ffynnu a datblygu ar draws pob gwlad, gan ddigwydd wrth gwrs bob amser ochr yn ochr â'n cymuned gynyddol o gyfranogwyr a chydweithwyr.”

*(Yael Owen, Pennaeth Iechyd a Lles, People Dancing)*³

Mae'r ffocws ar y Gymraeg hefyd wedi bod yn gyflawniad pwysig yn ystod y flwyddyn hon.

“Llongyfarchiadau ar wneud cymaint yn y maes hwn. Rwy'n hoff iawn o'r ffordd rydych chi wedi integreiddio'r Gymraeg i bob agwedd o'r gwaith a'r cynigion i'r sector. Rydw i'n ddiolchgar i chi am fod mor drylwyr a meddylgar yn eich cynllunio a'ch gweithredu.” (Einir Siôn, Ysgogwr y Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru)

Ar Bartneriaid

Gall yr effaith ar bartneriaid fod yn sylweddol ac mae croeso unfrydol iddi gan ei bod yn ehangu effaith yr hyn y gall unrhyw sefydliad unigol ei gyflawni ar ei ben ei hun. Bu pwyslais cynyddol hefyd ar ddysgu traws-gelfyddydol a chyfnewid gwybodaeth, a dangoswyd hyn pan ymunodd Common/Wealth fel partner.

“Mae Common/Wealth yn credu bod ymarfer cydweithredol yn allweddol i ddiwylliant celfyddydol cryfach yng Nghymru. Roedd ymuno â'r bartneriaeth yn teimlo fel cam naturiol nesaf ar ôl i'n Cynhyrchydd Cymunedol, Chantal Williams, gyflwyno sesiwn am y gwaith safle-benodol ac sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned rydym ni'n ei wneud, ochr yn ochr â grŵp gwych o bobl greadigol ac ymarferwyr. Mae'r gwaith hwn yn bwysig, ac rydym ni'n teimlo'n gyffrous i barhau i adeiladu cysylltiadau a chyfnewid syniadau.” (Chantal Williams, Cynhyrchydd Cymunedol)

Roedd y bartneriaeth gydag Arts Care Gofal Celf yn cefnogi'r diwrnod hyfforddi wyneb yn wyneb ac o fudd nid yn unig i'r cyfranogwyr ond hefyd i'r sefydliad cynnal:

“Diolch yn fawr iawn am weithio gydag Arts Care Gofal Celf i drefnu a chyflwyno'r diwrnod DPP diweddar yn y Ffwrnes, Llanelli. Roedd yn ddiwrnod gwych, a dywedodd pob ymarferydd y siaradais â nhw eu bod nhw wedi mwynhau'r diwrnod a'r cyfle i rannu arbenigedd ac archwilio gwahanol ddulliau o weithio gydag oedolion ag anableddau dysgu. Ar ben hynny, roedd y cyfranogwyr yn amlwg wedi cael amser gwych, ac roedd yr egni a'r llawenydd yn yr ystafell drwy

³ https://www.communitydance.org.uk/DB/logs/news_and_views/dance-parkinsons-communities-and-connections

gydol y digwyddiad yn hyfryd i'w gweld. Diolch eto am eich cefnogaeth ac am waith amhrisiadwy WWTP."

Mae partneriaid sy'n cyflwyno eu gwaith hefyd yn elwa ar y broses o fyfyrion sydd ynghlwm wrth wneud hynny:

"Diolch am y cyfle a'r llwyfan. Roedd yn brofiad a phroses werthfawr iawn i ni eistedd a myfyrion ar gyflawniadau a dysgu ein blwyddyn gyntaf. Roedd yr awyrgylch mor gynnes a chroesawgar." (Despina Lloyd Goula, Cyd-gyfarwyddwr, Cwmni Dawns Hedydd)

Ymddengys mai'r prif ysgogiad i bartneriaid yw'r cysylltedd a'r dysgu ar y cyd:

"Rydym ni wrth ein bodd yn ymuno â WWTP fel partner, gan ein bod ni'n rhannu'r un gred ym mhwybigrwydd rhannu arferion a phrofiadau a fydd yn datblygu dawns yng Nghymru. Rydym ni'n teimlo'n gyffrous i adeiladu ar ein cydweithrediad diweddar gyda WWTP pan gyflwynodd ein Swyddog Dawns, Amber Howells, sesiwn gyflwyniadol i athrawon a hwyluswyr dawns Cymru am ein gwaith gyda phobl ifanc Fyddar a'n prosiect Quiet Beats." (Gwyn Emberton, Cyfarwyddwr Artistig, Jones the Dance/Y Dawns)

"Mae Paallam Arts yn sefydliad celfyddydau perfformio wedi'i leoli yn Wrecsam, gyda dawns a chelf symudiad fel ei gyfrwng mynegiant craidd. Rydym ni'n falch o gael ein gwahodd i ddod yn bartneriaid yn WWTP." (Krischnapriya Ramamoorthy, Cynhyrchydd a Chyfarwyddwr, Paallam Arts)

"Rydw i'n falch iawn o gynrychioli Hijinx fel rhan o WWTP. Mae'n bartneriaeth wych a hanfodol sy'n dod â phobl a sefydliadau celfyddydol o bob rhan o Gymru ynghyd i adeiladu dyfodol cryfach, mwy ymgysylltiol a chynhwysol." (Dan McGowan, Pennaeth Ffilm, Hijinx)

"Rydym ni'n tyfu fel sefydliad, a thrwy gydweithio â WWTP rydym ni wedi gallu cynyddu ein gallu i ddarparu cyfleoedd hyfforddi o ansawdd uchel i Artistiaid Dawns yng Ngogledd Cymru. Mae profiad WWTP yn y maes hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein cefnogi ni wrth i ni ehangu ein darpariaeth ymhellach, gan weithio gydag artistiaid lleol profiadol a darparu cyfleoedd hyfforddi."

Ar Arweinwyr Sesiynau

Ymddengys fod arweinwyr sesiynau yn croesawu'r cyfle i weithio ar y rhaglen gan ei bod yn darparu cyfleoedd i fyfyrion ar eu hymarfer a'i mynegi, ar yr un pryd â rhannu mannau creadigol gydag ymarferwyr eraill sy'n dod â safbwyntiau newydd.

"Mae wedi bod yn bleser pur cyflwyno diwrnod DPP yng Ngogledd Cymru fel rhan o Raglen Hyfforddiant Cymru Gyfan. Roedd wedi'i drefnu'n arbennig o dda, gyda chyfathrebu clir, ystyriol ac yn canolbwyntio ar atebion drwy gydol y cyfnod paratoi ac ar y diwrnod ei hun. Roedd yn galonogol gweld ADDLl wrth wraidd ffocws Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan – mae'r math hwn o DPP arbenigol yn hanfodol i ddyfnhau ymarfer cynhwysol ar draws y sector. Daeth amrywiaeth yr ymarferwyr dawns a oedd yn bresennol o bob rhan o Gymru â chyfnod cyfoethog o safbwyntiau, a wnaeth y diwrnod yn un ysbrydoledig iawn i ni ei gyflwyno."

"Roedd yn bleser cael siarad yn sesiwn Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan heddiw. Mae hi bob amser yn bleser cwrdd â phobl greadigol eraill a chael fy ysbrydoli gan eu gwaith, ac ar yr un pryd gael y cyfle i rannu ymarfer a gwaith Common/Wealth. Mae'r fforymau rhannu hyn yn bwysig, mae gennym ni gyd lawer i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd ac oddi wrth y bobl anhygoel

sy'n ffurfio tirwedd greadigol Cymru, boed hynny'n sefydliadau, artistiaid, cyfranogwyr neu gymunedau." (Chantal Williams, Cynhyrchydd Cymunedol, Common/Wealth)

"Roedd cael y cyfle i arwain sesiwn symudiad drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ymarferwyr dawns yn bleser pur. Roedd yn hyfryd rhannu'r gofod creadigol gyda gweithwyr proffesiynol eraill, ac yn fy atgoffa o'r dalent a'r arbenigedd sydd gennym ni yma yng ngogledd Cymru ac i fi yn bersonol yn rhoi fy nhraed ar y ddaear, gan fy nghysylltu'n ôl â fy ymarfer creadigol a fy ngwreiddiau fy hun. Diolch! Diolch yn fawr!"

Mae arweinwyr sesiynau hefyd yn croesawu'r gwaith trefnu sy'n cefnogi'u darpariaeth:

"Roedd yn anrhydedd ac yn bleser llwyr cael fy ngwahodd i arwain sesiwn DPP ar gyfer WWTP. Roedd y trefniadau'n rhagorol, ac roedd Tracey yn cyfathrebu'n glir iawn gyda mi ac yn ymateb i gwestiynau'n gyflym iawn. Roedd yn bleser gweithio gyda hi." (Dr Kate Lawrence, Cyfarwyddwr Vertical Dance)

"Roeddwn i wrth fy modd yn cael fy ngwahodd gan Tracey Brown i arwain y gweithdy hwn gyda WWTP, ac roeddwn i mor falch bod yr ymarferwyr dawns yn awyddus i ddysgu am hygyrchedd o safbwynt person sydd â nam ar y golwg yn eu gwaith eu hunain. Roedd hi mor hyfryd gweithio gyda Tracey, ac rydw i'n gobeithio cael gweithio gyda hi, WWTP a Rubicon eto cyn bo hir." (Karina Jones, Artist Awyrol ac Actores â Nam ar y Golwg)

Mae'n bwysig cydnabod y feirniadaeth a gyfeiriwyd at y rhaglen yn Adolygiad Dawns CCC:

"Er bod rhai cyfranogwyr yn yr adolygiad hwn wedi'i gwerthfawrogi, mae Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan wedi wynebu beirniadaeth am ddod yn llai ymatebol i anghenion y sector yn ystod y cyfnod diwethaf. Mae'r symudiad at fodel talu, ynghyd â llai o fewnbwn gan gyfranogwyr i ddatblygiad y rhaglen, wedi newid yr ysbryd cydweithredol gwreiddiol. Er bod y ddarpariaeth ar-lein yn sicrhau hygyrchedd eang, mae llawer yn ystyried bod y fformat presennol wedi mynd yn fwy unfurf oherwydd ei gyfres o gyflwyniadau yn hytrach na chymhwysiad ymarferol a chefnogaeth bersonol." (Adolygiad Dawns CCC t.49)

Mae'r adborth a ddyfynnwyd uchod yn tueddu i wrth-ddweud rhywfaint o'r feirniadaeth hon er bod y symudiad tuag at ddarpariaeth ar-lein – er ei fod yn galluogi a chefnogi mynediad eang - yn amlwg yn her i'r cysylltedd a'r rhwydweithio wyneb yn wyneb y mae llawer yn eu gwerthfawrogi a byddai'n amserol ceisio rhagor o safbwyntiau ar y model wrth symud ymlaen.

Beth sy'n Cefnogi'r Effaith Hon?

Yn Adolygiad cynharach WWTP nodwyd y ffactorau llwyddiant allweddol canlynol ac mae'n amlwg o'r adborth ar y rhaglen weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2025/26 fod y ffactorau a'r nodweddion hyn yn parhau i fod ar waith ac yn cefnogi WWTP i ddiwallu anghenion y sector.

- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth;
- Gwybod beth sydd ei angen ac ymgynghori â'r sector ynghylch datblygu'r rhaglen;
- Dewis a chefnogi'r artistiaid a'r siaradwyr 'cywir' i arwain sesiynau ar anghenion a blaenoriaethau strategol y sector;
- Dulliau gweithredu hirdymor a chynaliadwy;
- Chwalu rhwystrau rhag mynediad;
- Sylw i fanylion a chyfathrebu rhagorol;
- Cynhesrwydd, caredigrwydd, gofal a dynoliaeth - dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ymlaen i'r Dyfodol

Fel adnodd, mae'r dull o weithio sy'n cael ei arwain gan y sector a'r partneriaid yn ganolog i feithrin ecoleg dawns Cymru ar yr adeg hollbwysig hon, pan fo artistiaid dawns yn gweithio mewn hinsawdd economaidd sy'n ansicr ac yn heriol, yn enwedig o ystyried natur fregus eu bywoliaeth.

Mae'r rhaglen yn cynnig cyfleoedd cyfunol ar gyfer datblygu sgiliau, dysgu rhwng cyfoedion, deialog a myfrio, rhwydweithio a chysylltedd, ynghyd â gofal a chefnogaeth ar wahanol gamau gyrfa. Mae artistiaid ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu dilysu a'u cadarnhau. Mae'r rhaglen yn hygyrch ac yn fforddiadwy, ac yn cynnig gofod diogel i artistiaid ac ymarferwyr ddysgu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain.

Fel y nodwyd yn adolygiad 2024/2025 *“Am 12 mlynedd mae WWTP wedi darparu cefnogaeth hanfodol i'r sector dawns gymunedol yng Nghymru ac wedi llwyddo i ymdopi â heriau'r pandemig, nid yn unig drwy addasu a gwydnwch sefydliadol, ond hefyd drwy chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi ymarferwyr drwy gyfnodau o ansicrwydd, ynysiad a phryder dwys. Mae wedi ymrwymo'n llwyr i asesu ei effaith ar ymarferwyr, y sector a'r ymarfer, ac wedi adrodd ei stori gyda gonestrwydd, didwylledd a haelioni. Mae'n darparu cefnogaeth hanfodol i weithlu sy'n ynysig ac yn ariannol fregus, ac mae'n gwneud hynny gyda gofal eithriadol.”*

Gan ddefnyddio'r sylfaen gref hon, credir ei bod yn bwysig, er mwyn sicrhau darpariaeth yn y dyfodol mewn sector dawns gymunedol sy'n newid yn barhaus, fod cyfnod o fyfrio ar y rhaglen. Mae'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Dawns Cymru a blaenoriaethau strategol ehangach, gan gynnwys cyfiawnder hinsawdd, y Gymraeg ac ymarfer gwrth-hiliol, yn awgrymu bod angen adolygiad strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n gallu asesu'r model presennol yn feirniadol a llunio ar y cyd sut y gallai hyfforddiant dawns gymunedol yng Nghymru edrych dros y degawd nesaf.

Ond, mae'n hollbwysig i ymarferwyr ac artistiaid fod parhad yn y ddarpariaeth, ac felly cynigir y dylai darpariaeth barhaus redeg ochr yn ochr ag adolygiad annibynnol a fyddai'n ceisio gweithio'n gydweithredol gyda'r sector i ail-ddychmygu'r rhaglen hon. Er mwyn i WWTP barhau i dyfu a diwallu anghenion a blaenoriaethau strategol y sector, fel y nodwyd yn adolygiad gweithgareddau 2024/2025, mae angen i'r 'tîm' dyfu y tu hwnt i'r arweinyddiaeth unigol bresennol, drwy ychwanegu cefnogaeth weinyddol a marchnata.

Yn hollbwysig, bydd y broses hon yn sicrhau parhad cefnogaeth i'r sector, ar yr un pryd â llunio gweledigaeth glir a rennir ar gyfer ei ddatblygiad hirdymor, er mwyn sicrhau datblygiad rhaglen hyfforddi berthnasol a fydd yn rhan o hyfforddiant Dawns Gymunedol yng Nghymru dros y degawd nesaf. Mae angen gweithlu ar Gymru sydd â'r sgiliau, y profiad a'r wybodaeth i ddarparu ystod eang o sesiynau dawns gymunedol mewn amrywiaeth o gyd-destunau traws-sector. Drwy barhau i ddarparu cysylltiad, cefnogaeth, dysgu, rhannu a chyfleoedd, ynghyd â hyfforddiant perthnasol, y bwriad yw parhau i ddod ag ymarferwyr ac artistiaid ynghyd o bob rhan o Gymru drwy raglen y maent yn berchen arni.

Mae WWTP yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr i sector sy'n wynebu heriau enfawr yn yr hinsawdd economaidd bresennol, a hyd yma mae wedi gweithredu ar sail dreigl o flwyddyn i flwyddyn gyda chyllid prosiect ansicr. Mae wedi cyflawni effaith sylweddol o fewn cyfyngiadau mor gyfyngol, ac mae'n fodel i weddill y DU o ran sut i gefnogi'r gweithlu llawrydd y mae ein sector yn dibynnu arno. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad arfaethedig hwn yn gwneud y rhaglen yn fwy cynaliadwy i'r tymor hwy, gan ddarparu mwy o sefydlogrwydd i'r artistiaid a'r ymarferwyr y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r adolygiad byr hwn yn tynnu ar gorff helaeth o ddeunydd a gasglwyd gan Tracey Brown, Rheolwr Rhanddeiliaid yn Rubicon Dance - sy'n cydlyn Rhaglen Hyfforddiant Cymru Gyfan (WWTP). Mae'r deunydd wedi'i olygu gan Dr Susanne Burns.

Mae'r geiriau mewn italig i gyd yn ddyfyniadau o adborth gan gyfranogwyr. Mae rhai wedi'u priodoli tra bod eraill yn parhau'n ddienw.

Cliciwch ar y ddolen isod i weld ffilm WWTP am ddiwrnod DPP Ymwybyddiaeth o Fyddardod: https://youtu.be/3vwzTZvSsLs?si=HN9_YhJyJSrldFq

Mae'r blog hwn yn cyfeirio at ddiwrnod DPP a gynhaliwyd ym mis Mai 2025

https://www.communitydance.org.uk/DB/blogs/news_and_views/dance-parkinsons-communities-and-connections

Am fwy o wybodaeth am Raglen Hyfforddiant Cymru Gyfan, cysylltwch â Tracey Brown, Rheolwr Rhanddeiliaid yn Rubicon Dance at tracey@rubicondance.co.uk.

Gallwch ddod o hyd i WWTP ar Facebook neu ymwelwch â www.rubicondance.co.uk

